OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 181 (Cy.14)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*1 Chwefror 2005*
Yn dod i rym - -	*2 Chwefror 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 24 a 113 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 2 Chwefror 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru yn unig.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "Rheoliadau 1993" ("*the 1993 Regulations*") yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993(**3**).

Diwygiadau i Reoliadau 1993

3.—(1) Diwygir Rheoliadau 1993 yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Yn rheoliad 2(1), yn lle'r diffiniad o "list" rhodder —

""list" means, other than in regulation 5(1A), (3) and (3A), a valuation list compiled under section 22, section 22A or section 22B of the Act;".

(3) Yn rheoliad 5 —

(a) ar ôl paragraff (1), mewnosoder—

(**1**) 1992 p.14.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1993/290 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1994/1746, O.S. 1995/363, O.S. 1996/613, O.S. 1996/619, O.S. 2000/409 ac O.S. 2001/1439.